Cardwenynen feinlais

Mae'n bur debyg mai'r Gardwenynen feinlais, *Bombus sylvarum,* yw'r rhywogaeth brinnaf o gacwn yn y DU.

Yn y 1900au, roedd y Gardwenynen feinlais i'w gweld ledled Cymru a Lloegr bron. Ers hynny, mae'r poblogaethau wedi dirywio'n gyflym ac, erbyn hyn, dim ond rhyw 7 poblogaeth ar wahân sydd ar ôl. Mae'r poblogaethau yma sy'n weddill yn Ne Cymru a Lloegr yn bennaf, ble maent yn dal i ffynnu ar ddolydd a glaswelltiroedd sydd â chyfoeth o flodau. Nid yw poblogaethau mor ynysig yn ddelfrydol o gwbl oherwydd mae'n gallu achosi mewnfridio ymhlith cacwn sy'n perthyn yn agos. Felly, rydym yn gweithio gyda pherchnogion tir er mwyn ceisio creu mwy o gynefin i warchod y poblogaethau presennol a'u cysylltu â'i gilydd.

Cliciwch yma i ddarllen astudiaeth achos am rywfaint o'r gwaith rydym yn ei wneud i helpu'r Gardwenynen feinlais.



Mapiau'n dangos dosbarthiad y Gardwenynen feinlais (Mapiau drwy garedigrwydd BWARS)